



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service


Rheolwr Ardal

Pecyn Ymgeiswyr, Hydref 2025




LHH

Cynnwys

A row of yellow fire helmets is visible in the background, slightly out of focus. The helmets are arranged on a shelf, and the image has a dark, moody lighting.

Croeso gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân Iwan Cray	04
Hysbyseb	05
Gwybodaeth am y Gwasanaeth	06
Gwybodaeth am yr Awdurdod Tân	08
Proffil y Swydd	09
Disgrifiad o'r Swydd	10
Manyleb y Person	11
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y gwaith	13
Amodau a Thâl	14
Sut i ymgeisio	15



Croeso gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân Iwan Cray, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn rôl Rheolwr Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Ein gweledigaeth yw 'darparu'r Gwasanaeth Tân ac Achub gorau posibl ar gyfer cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru'. Er bod gennym hanes balch o lwyddiant, rydym yn gwybod bod wastad lle i wella.

Ar gyfartaledd, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn mynychu tua 12,000 o ddigwyddiadau bob blwyddyn. Dros y deng mlynedd diwethaf, rydym wedi mynychu tua 5,700 o danau mewn tai, 2,200 o danau annomestig, 9,650 o ddamweiniau traffig ffyrdd, 9,100 o danau glaswellt a choedwigaeth a 3,650 o ddigwyddiadau llifogydd. Fodd bynnag, mae ein presenoldeb mewn digwyddiadau traddodiadol sy'n gysylltiedig â thân yn lleihau. Yn yr un cyfnod, mae ein presenoldeb mewn tanau bwriadol wedi lleihau 34%; ac mae ein presenoldeb mewn tanau damweiniol mewn cartrefi wedi lleihau 28%.

Rydym yn credu bod y duedd hon yn ein presenoldeb mewn digwyddiadau yn ganlyniad i'n gwaith atal yn y gymuned. Yn wir, dros y pum mlynedd diwethaf yn unig rydym wedi cynnal 85,690 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, wedi ymgysylltu â 184,401 o bobl ifanc drwy ein rhaglenni addysg ac wedi cynnal 10,798 o archwiliadau o safleoedd masnachol. Ar ben hynny, mae ein diffoddwyr tân wedi ymateb i 10,232 o ddigwyddiadau ymateb meddygol, sy'n gynyddo 12% ar y pum mlynedd blaenorol. Rydym hefyd yn parhau i weithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru i gynyddu ein gallu ymateb meddygol.

Er gwaethaf ein llwyddiannau clir, nid ellir osgoi'r ffaith y bydd yr hinsawdd ariannol rydym yn gweithredu ynddi'n parhau i greu pwysau ychwanegol ar lefel y gwasanaeth a ddarparwn ar hyn o bryd ac felly bydd yn ymestyn ein hadnoddau ymhellach fyth. Er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i barhau i addasu, rydym wedi nodi ein bwriad ar gyfer y dyfodol drwy lunio Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, gan ddod â ffocws newydd ar anghenion ein cymunedau a fydd yn llunio darpariaeth ein gwasanaethau yn y dyfodol.

Bydd hyn yn golygu, er y bydd rôl Rheolwr Ardal yn sicrhgu o fod yn heriol, rwy'n credu y bydd y person cywir, gyda'r ysgogiad, yr angerdd a'r awydd angenrheidiol i wneud gwahaniaeth, yn ddylanwadwr ac yn arweinydd allweddol a fydd yn sicrhgu llwyddiant parhaus y Gwasanaeth.

Ein hymrwymiad yw addasu i heriau mewn ffordd gadarnhaol trwy gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid eraill. Rwy'n credu mai cydweithio yw dyfodol yr holl wasanaethau cyhoeddus, a fydd yn ein galluogi i wella'r ffordd rydym yn gweithio; rhannu ein pobl a'n hadnoddau ariannol; ac yn y pen draw achub mwy o fywydau.

Dim ond trwy gyflogi'r bobl gywir mae darparu Gwasanaeth gwell a llwyddiannus yn bosibl. Rydw i eisiau'r gweithwyr gorau sy'n cynrychioli ein cymunedau; wedi'u hyfforddi yn y ffordd orau i sicrhgu eu diogelwch; ac â'r offer gorau fel y gallant weithredu i'r safonau uchaf.

Os ydych chi'n credu eich bod chi'n rhannu ein gweledigaeth a'n hymrwymiad i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru, hoffwn glywed gennych chi. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais, byddwn yn croesawu'r cyfle i drafod ymhellach gyda chi.

Diolch a phob lwc!
Dirprwy Brif Swyddog Tân Iwan Cray



Hysbyseb

Rheolwr Ardal B

Cyflog – £67,792 - £74,360 (Lwfans Dyletswydd Hyblyg o 20% a Lwfans Dyletswydd Barhaus o 12%) + buddion rhagorol

Lleoliad – Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn chwilio am Reolwr Ardal B ysbrydoledig a blaengar i ymuno â'n Tîm Arweinyddiaeth Weithredol. Mae hwn yn gyfle prin i chwarae rhan allweddol wrth lunio dyfodol un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf uchel eu parch y DU.

Fel Rheolwr Ardal, byddwch yn darparu arweinyddiaeth strategol ar draws eich portffolio, gan sicrhau bod ein pobl, ein hadnoddau a'n partneriaethau wedi'u halinio i gyflawni rhagoriaeth i'r cymunedau a wasanaethwn. Byddwch yn arweinydd gweladwy sy'n cael ei yrru gan werthoedd, yn gallu gweithredu ar y lefelau uchaf o orchymyn, tra hefyd yn gyrru arloesedd, cydweithio a gwelliant parhaus.

Rydym yn chwilio am arweinydd sydd:

- Yn dod â hanes profedig o arweinyddiaeth strategol
- Yn gallu dylanwadu ar ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid a chydweithio â nhw
- Wedi ymrwymo i gyflawni perfformiad uchel, diwylliant cynhwysol, a thrawsnewid gwasanaeth
- Yn gallu arwain yn ystod digwyddiadau mawr a chyfrannu at fentrau cenedlaethol a rhanbarthol
- Yn gallu ysbrydoli a grymuso timau i gyflawni yn ôl nodau uchelgeisiol

Byddwch yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio a chyflawni strategaethau cyflwyno'r Gwasanaethau yn y dyfodol, gan sicrhau bod ein pobl yn cael eu cefnogi, bod ein cymunedau yn cael eu diogelu, a bod ein sefydliad yn parhau i esblygu i ymdopi â heriau sy'n dod i'r amlwg.

Dyma eich cyfle i arwain gydag uniondeb, gyrru newid ystyrion, a chael effaith barhaol ar draws canolbarth a gorllewin Cymru.

I gael gwybod mwy a sut i wneud cais, ewch i [Penna | Jobs](#) neu am drafodaeth anffurfiol am y rôl gyffrous hon, cysylltwch â chydweithiwr ein partner, Fizza Islam, ar Executive@LHH.com neu **0141 220 6460**.

Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn **hanner nos, nos Fercher 5 Tachwedd 2025**.



Gwybodaeth am y Gwasanaeth

Rydym yn gweithio'n galed i wasanaethu dros 900,000 o bobl sy'n byw yn ardaloedd Powys, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Dinas a Sir Abertawe.



Crëwyd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morganwg.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ffurfio bron i ddwy ran o dair o Gymru. Mae'n cwmpasu ardal wledig yn bennaf o 4,500 milltir sgwâr (11,700 km²) ac mae'n cynnwys 58 o orsafoedd, wedi'u rhannu ar draws tair Adran (Gogleddol, Gorllewinol a Deheuol). Y Gwasanaeth yw'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, y tu ôl i Wasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae gan y Gwasanaeth y drydedd boblogaeth wasgarog uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae 900,000 o bobl yn byw yn yr ardal rydym yn ei gwasanaethu. Mae'r nifer hwn yn chwyddo i dros 1.5 miliwn o ganlyniad i dwristiaeth drwy fisoedd yr haf.

Mae amrywiaeth o risgiau i'w cael o fewn ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd â phoblogaeth uchel fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yna hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ledled yr ardal. Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn ffurfio rhai o'r risgiau arbenigol a geir o fewn y Gwasanaeth.

Rydym yn falch bod ein 1,350 o gydweithwyr yn gwasanaethu dros 430,000 o gartrefi a 43,000 o safleoedd busnes. Rydym yn gweithio'n galed i wasanaethu dros 900,000 o bobl sy'n byw yn ardaloedd Powys, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Dinas a Sir Abertawe.

Ein Gweledigaeth **Rydym yn ymdrechu i:**

- ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru

Ein Galluogwyr yw:

- Ein Pobl
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Strategaeth Technolegau Digidol a Chyfathrebu Gwybodaeth
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Llywodraethu, gwneud adrannau a gwelliant parhaus
- Gwydnwch Ariannol
- Partneriaeth a Chydweithio

Ein Hymddygiad

Rydym yn:

- Atebol
- Arddangos gonestrwydd
- Parchus
- Di-duedd
- Moesegol

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan





Gwybodaeth am yr Awdurdod Tân

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r chwech Awdurdod Lleol yn ardal canolbarth a gorllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys a Dinas a Sir Abertawe).

Maent yn atebol i'r cyhoedd ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer ein cymunedau, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau canlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
- Gorchymyn Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995.
- Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Rhag Tân) 2005.
- Gorchymyn Cynlluniau Gwasanaethau Tân ac Achub Cyfun (amrywiad) Cymru 2009.
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 diwygiwyd 2011.
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gan yr Awdurdod rwyngedigaeth statudol i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu delio'n effeithiol â galwadau am gymorth mewn achos tân ac argyfyngau eraill.



Proffil y Swydd

Mae cyfle heriol a chyffrous yn bodoli i'r bobl gywir ffurfio rhan o Dîm Arweinyddiaeth Weithredol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn swyddi Rheolwr Ardal B. Mae un swydd wag bwysig yn bodoli ar hyn o bryd.

Mae'r swydd yn debygol o apelio at unigolyn sy'n chwilio am y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sydd wedi dangos lefelau cyson uchel o berfformiad ac arloesedd yn ystod cyfnod o newid a phwysau ariannol.

Y Person

Bydd ymgeiswyr addas eisoes wedi dangos hanes llwyddiannus o ran cyflawniad ac arweinyddiaeth a byddant yn gallu dangos dealltwriaeth glir o'r heriau sy'n wynebu'r Gwasanaeth a'r sector ehangach dros y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt. Bydd angen i chi feddwl yn greadigol a sianelu egni ac ymrwymiad cydweithwyr, ysbrydoli perfformiad cadarnhaol i geisio gwelliant parhaus. Bydd y sgiliau a'r gallu gennych i weithredu'n effeithiol ar lefel strategol a byddwch yn gallu darparu enghreifftiau o ble mae eich ymarfer proffesiynol wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae ardal canolbarth a gorllewin Cymru yn cwmpasu dros 11,700 km² a dros 650 km o arfordir. Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaeryddol yn y Deyrnas Unedig, ar ôl Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae ganddo ystod amrywiol o risgiau, gan gynnwys Dinas a Sir Abertawe sydd wedi'u trefoli, diwydiannau petrocemegol a llongau o amgylch Aberdaugleddau, Baglan a Phort Talbot, prifysgolion yn Aberystwyth, Caerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan ac Abertawe, yn ogystal â sylfaen amaethyddol a choedwigaeth wledig fawr.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu lleoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân yng Nghaerfyrddin, sy'n gweinyddu 58 o orsafoedd tân a 1300 o staff gyda chyllideb o £73 miliwn.

Mae canolbarth a gorllewin Cymru yn cynnig amgylchedd hardd i fyw a gweithio ynddo, a'r cyfle am ansawdd bywyd da. Mae lwfansau adleoli ac amodau gwasanaeth da yn berthnasol.



Disgrifiad o'r Swydd

Prif Ddiben y Swydd

Mae Rheolwr Ardal B yn rôl arweinyddiaeth uwch o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac yn adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr dynodedig. Mae deiliad y swydd yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni nodau ac amcanion strategol y Gwasanaeth, gan ddarparu arweinyddiaeth weithredol, a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol ar hyd a lled y rhanbarth.

Fel aelod allweddol o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, mae Rheolwr Ardal B yn cyfrannu at gyfeiriad strategol y sefydliad, yn arwain ar brosiectau a mentrau mawr, ac yn darparu uwch reolaeth mewn digwyddiadau arwyddocaol a mawr. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys gweithio'n agos gyda thimau mewnol, partneriaid allanol, a rhanddeiliaid i sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i gwrdd ag anghenion esblygol y cymunedau mae'n eu gwasanaethu.

Mae Rheolwr Ardal B yn gyfrifol am sicrhau bod dyletswyddau statudol y Gwasanaeth yn cael eu cyflawni'n effeithiol, yn ddiogel, ac yn unol â Gweledigaeth, Ymddygiadau a Chynllun Rheoli Risg Cymunedol y Gwasanaeth.

Prif Gyfrifoldebau:

- Cyfrannu at waith y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol, gan ymgymryd â chyfrifoldebau corfforaethol dros benderfyniadau strategol a dyrannu adnoddau, gan gefnogi pob agwedd ar Gyflwyno'r Gwasanaethau'n llawn.
- Darparu uwch reolaeth weithredol dros adnoddau'r Gwasanaeth ar leoliad mewn digwyddiadau mawr neu ar leoliad mewn digwyddiadau brys llai gyda goblygiadau sen sitif o ran diogelwch gwleidyddol, cymdeithasol, amgylcheddol neu bersonél er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Gwasanaeth yn cael eu cyflawni'n effeithiol.
- Craffu ar gyllideb cyfrifoldebau portffolio yn unol â Gorchmynion a Chyfarwyddiadau Sefydlog Llywodraeth Genedlaethol a Lleol er mwyn sicrhau bod gwariant o fewn y dyraniad a bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i'r effaith fwyaf.
- Gweithio o fewn Pwyllgorau Materion Cenedlaethol ac ymgysylltu â phartneriaid / rhanddeiliaid y Gwasanaeth i ddatblygu a gweithredu strategaethau cydweithredol Cyflwyno'r Gwasanaethau.
- Gweithio fel aelod allweddol o Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth i yrru newid yn y gwasanaeth a gweithredu fel rheolwr prosiect lle bo angen.
- Monitro meysydd cyfrifoldebau portffolio er mwyn sicrhau bod targedau realistig yn cael eu gosod, dyrannu adnoddau a chyflwyno'r gwasanaethau'n effeithlon.
- Adolygu safonau perfformiad Cyflwyno'r Gwasanaethau'n barhaus lle bo angen.
- Arwain a datblygu strwythurau rheoli a chyfathrebu effeithlon ac effeithiol i alluogi'r Gwasanaeth i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.
- Parhau i ddatblygu a gwerthuso safonau perfformiad sy'n ymwneud ag amcanion Cyflwyno'r Gwasanaethau.
- Arwain a datblygu partneriaethau â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, partneriaid ac asiantaethau a chynrychioli'r Gwasanaeth ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu strategaethau Cyflwyno'r Gwasanaethau yn y dyfodol sy'n cyd-fynd ag anghenion ein cymunedau.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer gwella gweithgareddau a gwerthuso'r manteision posibl i'r Gwasanaeth yn barhaus. Cynllunio a gweithredu newidiadau ledled y sefydliad i sicrhau gwelliant parhaus yn narpriaeth y gwasanaeth trwy ysbrydoli, ymgysylltu a chysylltu â phersonél, a sicrhau gwydnwch adrannol a ledled y Gwasanaeth.
- Paratoi adroddiadau cynhwysfawr a manwl i'r Prif Swyddog Tân i'w cyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub, y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a rhanddeiliaid eraill.
- Ymgysylltu, lle bo'n briodol o fewn polisïau'r Gwasanaeth, ag asesu, datblygu a dewis personél.
- Cynnal gwerthusiadau personol ac adolygiadau perfformiad, o fewn telerau polisïau'r Gwasanaeth, ar gyfer personél rydych yn rheolwr llinell arnynt.
- Trefnu, datblygu a gweithredu gweithgareddau gwaith personol a chynlluniau datblygu i wella perfformiad yn y gwaith yn barhaus.
- Cynllunio, cadeirio a chymryd rhan mewn cyfarfodydd yn ôl yr angen.
- Mynychu achlysuron a digwyddiadau priodol er mwyn hyrwyddo'r Gwasanaeth o fewn y Gymuned.
- Asesu angen y Gwasanaeth am systemau ansawdd a gwerthuso'r manteision a geir o gynnal a chadw systemau o'r fath.
- Ymarfer a hyrwyddo polisïau iechyd a diogelwch y Gwasanaeth a sicrhau datblygiad a chynnydd iechyd a diogelwch o fewn maes cyfrifoldeb y disgrifiad swydd hwn ac iechyd a diogelwch yr holl weithwyr a chwsmeriaid trwy atebolrwydd ac ymrwymiad personol.
- Hyrwyddo a modelu gweledigaeth ac ymddygiadau'r Gwasanaeth, o fewn y sefydliad ac wrth ddarparu gwasanaethau.



Manyleb y Person

Profiad o reoli ar lefel uwch mewn Gwasanaeth Tân ac Achub gyda thystiolaeth o wneud cyfraniad sylweddol.



Rhinweddau Corfforol

- Rhaid bod yn heini ac mewn iechyd meddyliol a chorfforol da yn unol â Rheoliadau Recriwtio priodol y Gwasanaeth Tân a bodloni gofynion meddygol y Gwasanaeth.

Cymhwysterau / Hyfforddiant Galwedigaethol / Gallu

- Cymhwyster gradd neu ôl-radd perthnasol, neu brofiad proffesiynol cyfatebol, gyda thystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Cymhwyster rheoli ffurfiol neu gymhwyster cyfatebol drwy ymarfer proffesiynol.

Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad o reoli ar lefel uwch mewn Gwasanaeth Tân ac Achub gyda thystiolaeth o wneud cyfraniad sylweddol.
- Hanes llwyddiannus o reoli timau/swyddogaethau amlddisgyblaethol i gyflawni amcanion cyffredin.
- Profiad o hyrwyddo'r sefydliad ar lefel uwch gyda chyrrff allanol, y wasg a'r cyfryngau.
- Profiad o adolygu polisïau a chyllidebau.
- Dealltwriaeth o'r cysyniad o welliant parhaus a'i oblygiadau i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

- Profiad o ddelio ag Aelodau Etholedig a chyrrff cynrychioliadol ar lefel Uwch Reolwr (Dymunol).
- Profiad o reoli systemau rheoli perfformiad.

Bydd gennych – Sgiliau a Gallu

- Sgiliau rheoli ariannol, gan gynnwys rheoli cyllidebau
- Sgiliau negodi datblygedig i ddarparu ffocws clir ar gyfer gweithredu.
- Gallu dangos gweledigaeth gorfforaethol a dealltwriaeth o faterion a pholisïau ar draws y sefydliad.
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da.
- Hyblygrwydd a'r gallu i addasu i ymdopi â blaenoriaethau a phwysau sy'n gwrthdaro.
- Sgiliau rhyngpersonol datblygedig, sy'n gyson ag amgylchedd gwaith modern.
- Ymagwedd wrthrychol a rhesymegol tuag at wneud penderfyniadau/datrys problemau.
- Ymrwymiad i ddatblygu ethos o ansawdd ar draws pob maes cyflwyno gwasanaeth.
- Gallu cynnwys pob grŵp perthnasol wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau.

- Empathi tuag at bwysigrwydd yr iaith Gymraeg ym mywyd a gwaith canolbarth a gorllewin Cymru, a dealltwriaeth o gyfansoddiad diwylliannol ac ieithyddol amrywiol yr ardal.
- Gallu siarad Gymraeg (Dymunol).
- Y gallu i gyflwyno ar lafar i grwpiau Pwyllgor mawr a pharatoi cyflwyniadau o'r fath i derfynau amser tynn.

Arall (Agweddau, Diddordebau)

- Bydd gofyn i chi weithio ar system rota dyletswydd barhaus a mynychu digwyddiadau, achlysuron ac ati, y tu allan i oriau swyddfa arferol.

Dulliau Asesu

- Bydd yr holl feini prawf yn cael eu hasesu drwy'r Ffurflen Gais, y Broses Ddethol, a lle bo'n berthnasol, Tystysgrifau.



Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y gwaith

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn ein gwerthoedd craidd a'n harferion gweithredol, gan ddylanwadu ar bopeth o ymgysylltu â'r gymuned a darparu gwasanaethau i recriwtio, arweinyddiaeth a datblygu gyrfaedd.

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, rydym wedi ymrwymo i feithrin gweithle cynhwysol sy'n adlewyrchu'r cymunedau amrywiol rydym yn ei gwasanaethu.

Rydym yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol gynrychioli pob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn ein gwerthoedd craidd a'n harferion gweithredol, gan ddylanwadu ar bopeth o ymgysylltu â'r gymuned a darparu gwasanaethau i recriwtio, arweinyddiaeth a datblygu gyrfaedd.

Rydym wedi ymrwymo i:

- Creu amgylchedd croesawgar a pharchus lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso.
- Recriwtio a chadw gweithlu amrywiol, gan gynnwys pobl o gefndiroedd a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd datblygu gyrfa, hyfforddiant a dilyniant.
- Adolygu a gwella ein polisiau, arferion a diwylliant yn barhaus i leihau rhwystrau a rhagfarn.
- Cefnogi iechyd meddwl a lles, gan gydnabod nad yw cynhwysiant yn ymwneud â hunaniaeth yn unig, ond hefyd â sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gweld a'u cefnogi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adeiladu ar ein cynnydd, yn arwain trwy esiampl, ac yn parhau i hyrwyddo amgylchedd gwaith lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u grymuso i gyrraedd eu llawn potensial.

Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaeth yn hygyrch, yn ymatebol ac yn ennyn ymddiriedaeth holl bobl a chymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.



Amodau a Thâl

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion a all wella eich ffordd o fyw nawr ac yn y dyfodol.

Cyflog:

£67,792 - £74,360 (Lwfans Dyletswydd Hyblyg o 20% a Lwfans Dyletswydd Barhaus o 12%) + buddion rhagorol

Lleoliad Gwaith:

Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion a all wella eich ffordd o fyw nawr ac yn y dyfodol:

- Aelodaeth o Gynllun Pensiwn
- Gwyliau blynyddol hael
- Dysgu a datblygu
- Chwaraeon a chymdeithasol
- Ymgynghorwyr iechyd a ffitrwydd
- Cyrsiau dysgu Cymraeg
- Buddion Siopa
- Iechyd Galwedigaethol
- Parcio Car am Ddim
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- Cynllun Beicio i'r Gwaith
- Llesiant Gweithwyr
- Elusen y Diffoddwyr Tân



Sut i ymgeisio

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol gynrychioli pob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb.

I wneud cais am y swydd, anfonwch CV pwrpasol a llythyr eglurhaol i **Penna | Jobs** neu am drafodaeth anffurfiol am y rôl gyffrous hon, cysylltwch â'n cydweithiwr **Executive@LHH.com** or on **0141 220 6460**.

Sylwch y dylai'r llythyr eglurhaol ateb y ddau gwestiwn canlynol:

- Rhowch dystiolaeth o sut rydych wedi dangos cydymffurfiaeth â'n Gweledigaeth a'n Ymddygiadau.
- Rhowch ddatganiad o'ch addasrwydd ar gyfer y rôl.

Ni ddylai eich ymateb i'r cwestiynau hyn fod yn fwy na 500 gair i gyd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn credu bod yn rhaid i wasanaeth tân ac achub gwirioneddol effeithiol fod yn gynrychioliadol o bob cefndir, diwylliant a safbwynt, gan sicrhau tegwch, parch a chyfle cyfartal i bawb. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori yn ein gwerthoedd craidd a'n harferion gweithredol, gan ddylanwadu ar bopeth o ymgysylltu cymunedol a darparu gwasanaethau i recriwtio, arweinyddiaeth a datblygu gyrfaedd.

Rydym yn adolygu ein dull o sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein ceisiadau yn gyson a byddem yn falch pe gallech lenwi Ffurflen Monitro Cydraddoldeb.

Os oes angen unrhyw addasiadau arnoch neu os hoffech siarad ag aelod o'n tîm i drafod unrhyw amgylchiadau penodol, anfonwch e-bost at y cyfeiriad uchod.

Amserlen

- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:
hanner nos, nos Fercher 5 Tachwedd 2025
- Y Ganolfan Asesu (yng Nghaerfyrddin):
yr wythnos sy'n dechrau 1 Rhagfyr 2025
- Cyfweiliadau gydag Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (yng Nghaerfyrddin):
yr wythnos sy'n dechrau 15 Rhagfyr 2025





Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

